Beibl i Blant
yn cyflwyno

Byddin fach Gideon

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.


Ar ôl i
Josua farw,
dechreuodd
pobl Israel
wrthod
gwrando
ar Dduw.


Gadawodd Duw i bobl Midian, y wlad drws nesaf i Israel, losgi eu tai a'u cnydau.
Roedd yn rhaid i'r Israeliaid fyw mewn ogofâu.

Mae'n debyg fod Gideon, un o'r Israeliaid, yn tyfu ŷd mewn lle cyfrinachol.

Roedd yn dyrnu ŷd
mewn cafn gwasgu
grawnwin o dan
goeden
fawr.

Doedd y Midianiaid ddim yn gwybod am y lle - ond roedd Duw yn gwybod!
Anfonodd Angel at Gideon gyda neges.

Roedd Duw am i Gideon ddinistrio'r ddelw oedd gan ei dad o dduw ffug ac adeiladu allor i Dduw yn ei lle. Roedd gan Gideon ofn y byddai pobl yn ei ladd, ond bu'n ufudd i Dduw.



Roedd Duw hefyd am i Gideon arwain byddin Israel yn erbyn y Midianiaid drwg. Ond roedd gan Gideon ofn. Gofynnodd am arwydd arbennig

i ddangos y byddai Duw gydag e. Gosododd swp o wlân ar y llawr.



"Os bydd gwlith
ar y gwlân
yn unig a'r
ddaear o'i
gwmpas
yn sych,
bydda
i'n gwybod yn
bendant wedyn dy fod
ti'n mynd i achub Israel trwof
fi, fel ti wedi addo".



Dyna oedd gweddi Gideon. Yn y bore, roedd y llawr yn sych, ond roedd Y GWLÂN YN WLYB SOCIAN.


Roedd Gideon yn dal i amau Duw. Gofynnodd wedyn ar i Dduw wneud y llawr yn wlyb, ond y gwlân yn sych. A'r bore wedyn – roedd y llawr yn wlyb,
a'r GWLÂN YN SYCH!

Aeth Gideon allan gyda byddin o 32,000. Bu'n rhaid iddo dorri'r rhif i lawr i 300.



Doedd Duw ddim am i Israel feddwl mai nhw oedd wedi ennill y frwydr. Duw, a dim ond Duw, fyddai'n achub Israel.



Roedd Duw yn gwybod fod Gideon yn ofni o hyd, felly gadawodd iddo glustfeinio ar filwr o fyddin Midian yn disgrifio breuddwyd a gafodd.



Yn y freuddwyd gwelodd dorth o fara yn rholio yn erbyn un o bebyll Midian a'i dinistrio.



Dychrynodd y milwr arall.
"Dyma ... gleddyf Gideon ..."
meddai. Pan glywodd Gideon
ystyr y freuddwyd,
sylweddolodd fod
Duw yn mynd i roi
buddugoliaeth
iddo.

Cynlluniodd Gideon i ymosod yn ystod y nos. Rhoddodd gorn hwrdd i bawb, a jar wag gyda fflam yn llosgi tu mewn iddi. Dyma nhw'n sefyll mewn trefn o amgylch byddin Midian i gyd.

Ar ôl i Gideon roi arwydd,
chwythodd y milwyr y cyrn, a
torri'r jariau oedd ganddyn nhw.
Am sŵn! Am ddryswch!
Dychrynodd y Midianiaid
a rhedeg i ffwrdd.

Ar ôl i Gideon ennill y fuddugoliaeth hon, gofynnodd pobl Israel iddo fod yn arweinydd.



“Fedra i ddim bod yn arweinydd i chi … Yr ARGLWYDD ydy'ch brenin chi,” oedd ateb Gideon.



Roedd yn gwybod mai dim ond Duw sydd â'r hawl i reoli bywydau pobl.



Byddin fach Gideon

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Barnwyr 6-8

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16